**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

25 Mai 2022

Annwyl Mark,

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 10 Ionawr, rwyf wedi amgáu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Llywodraeth Cymru o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (5ed Senedd) *Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol – y stori hyd yma*. Mae hyn yn adeiladu ar ymateb Llywodraeth Cymru a anfonwyd atoch ar 1 Hydref 2021.

Yn gywir,

**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Copi at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**ATODIAD A: Mehefin 2022 Yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Llywodraeth Cymru o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (5ed Senedd) *Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol – y stori hyd yma*.**

Gellir dod o hyd i ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr adroddiad a anfonwyd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 1 Hydref 2021 yma: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/llythyr-at-gadeirydd-y-pwyllgor-cyfrifon-cyhoeddus-a-gweinyddiaeth-gyhoeddus.pdf.

---

**ARGYMHELLIAD 1**

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o sut y gall ddarparu sicrwydd ariannol tymor hwy i'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf hon. Dylai'r adolygiad hwn gael ei gwblhau mewn pryd i lywio penderfyniadau cyllido mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2023-24.

**Diweddariad cynnydd Llywodraeth Cymru:**

Yn dilyn Adolygiad o Wariant Hydref 2021 Llywodraeth y DU, a roddodd setliad aml-flwyddyn i ni, mae blaenoriaethau'r gyllideb wedi'u pennu hyd at 2024-25. Cytunodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru y dylai'r adolygiad o wariant 3 blynedd ganolbwyntio ar flaenoriaethu iechyd a gofal cymdeithasol, llywodraeth leol, addysg, a'r argyfwng hinsawdd a natur; pob gwasanaeth a maes cyhoeddus hanfodol lle mae gan gyrff cyhoeddus fuddiant uniongyrchol. Mae'r dyraniadau hyn yn rhoi sicrwydd y mae mawr ei angen ar ein partneriaid cyflenwi, gan gynnwys y rheini yn y trydydd sector, a byddwn yn parhau i wthio Llywodraeth y DU am hyblygrwydd ychwanegol a sicrwydd parhaus mewn perthynas ag unrhyw setliadau ariannol a gawn.

---

**ARGYMHELLIAD 2**

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o sut y caiff gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei gyllido. Dylai'r adolygiad ddechrau heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiad nesaf y Senedd, a dylid gweithredu casgliadau'r adolygiad mewn pryd iddynt lywio dyraniadau cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Dylid cynnal yr adolygiad gan lynu at yr egwyddorion a ganlyn:

- Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus allu cael mynediad at gronfeydd cyfun, wedi'u tynnu o adnoddau eu haelodau statudol, y gallent naill ai eu cadw fel endidau corfforaethol ffurfiol neu drwy drefniadau anffurfiol.
- Dylid penderfynu ar gyllidebau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ôl canllawiau clir a chyson wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru.
- Dylai cyllidebau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gael eu llywio gan y rôl y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gosod ar eu cyfer.
- Dylai'r cyfraniadau y mae'n ofynnol i bob sefydliad eu gwneud i gyllido Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gydnabod yr ymrwymiadau ehangach sydd ganddynt i bartneriaethau eraill (gan gynnwys i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill).

**Diweddariad cynnydd Llywodraeth Cymru:**

Fel y nodwyd yn yr ymateb (Hydref 2021), y flaenoriaeth bwysicaf i Lywodraeth Cymru a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fu datblygu'r asesiadau lleol o lesiant, sydd bellach yn cael eu cyhoeddi.

Bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn troi eu sylw at ddatblygu'r cynlluniau llesiant lleol a nodi eu hamcanion llesiant lleol, a fydd yn amlinellu'r cyfraniad y maent yn bwriadu ei

wneud i gyflawni saith nod llesiant cenedlaethol Cymru. Bydd angen i'r rhain fod ar waith erbyn mis Mai 2023. Ochr yn ochr â'r datblygiad hwn, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i archwilio lle maent wedi cyfuno – neu wedi ceisio cyfuno – adnoddau i nodi arfer da. Byddwn yn gweithio gyda hwy i nodi'r ffordd orau o rannu ac ymhelaethu ar yr arfer da hwn. Mae ar y trywydd iawn i'w gwblhau cyn i'r cynlluniau llesiant gael eu cyhoeddi.

---

**ARGYMHELLIAD 5**

Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau gyda chynlluniau i bennu a chyhoeddi cerrig milltir fel sy’n ofynnol gan adran 10 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiadau’r Senedd yn 2021.

**ARGYMHELLIAD 6**

Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau gyda chynlluniau i adolygu a chyhoeddi dangosyddion llesiant cenedlaethol diwygiedig heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiadau’r Senedd yn 2021. Dylai’r adolygiad gydnabod yr heriau a’r cyfleoedd a gyflwynir gan y pandemig Covid-19 ac ystyried barn cyrff cyhoeddus, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol y sector preifat a’r sector gwirfoddol.

**Diweddariad cynnydd Llywodraeth Cymru (Argymhellion 5 a 6):**

Yn 2021, gwnaethom ymgynghori ar y don gyntaf o gerrig milltir cenedlaethol a newidiadau arfaethedig i'r dangosyddion cenedlaethol. Yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi ychwanegu pedwar dangosydd cenedlaethol arall ac wedi gosod y don gyntaf o gerrig milltir cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r ychwanegiadau i'r set o ddangosyddion llesiant cenedlaethol yn cynnwys mesurau newydd ar gyfiawnder, teithio, costau tai a chynhwysiant digidol, a oedd i gyd yn faterion y dywedwyd wrthym eu bod bellach yn chwarae mwy o ran yn y gwaith o ddylanwadu ar ein llesiant cenedlaethol nag a wnaethant cyn pandemig COVID-19. Bydd y set o ddangosyddion cenedlaethol estynedig yn parhau i'n helpu i fesur cynnydd tuag at y saith nod llesiant.

Bydd Adroddiad Llesiant blynyddol Cymru, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2022, yn adrodd ar y 50 o ddangosyddion cenedlaethol ac, am y tro cyntaf eleni, y cerrig milltir cenedlaethol os oes data ar gael. Gyda'n gilydd, mae'r dangosyddion a cherrig milltir cenedlaethol yn ein helpu i wybod a yw cynnydd yn cael ei wneud tuag at y saith nod llesiant.

Mae'r dangosyddion cenedlaethol wedi'u cynllunio i gynrychioli'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer Cymru, a'i phobl. Bydd y rhain yn helpu i ddangos cynnydd tuag at y saith nod llesiant. Nid ydynt yn ddangosyddion perfformiad ar gyfer sefydliad unigol nac yn gamau gweithredu gan sefydliad unigol. Maent yn rhoi darlun cenedlaethol mwy cyfannol o'r hyn sy'n newid.

Mae'r cerrig milltir cenedlaethol yn gyfres o fesurau yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol sy'n nodi ein disgwyliadau o'r hyn y dylai'r dangosyddion ei ddangos yn y dyfodol. Mae'r cerrig milltir yn ein helpu i ddeall a yw'r dangosyddion cenedlaethol yn symud i'r cyfeiriad iawn tuag at gyflawni saith nod llesiant Cymru. Mewn datganiad ysgrifenedig ar 19 Chwefror 2021, gwnaethom ymrwymo i gyflawni'r don gyntaf o Gerrig Milltir Cenedlaethol erbyn diwedd 2021. Cafodd y cerrig milltir cenedlaethol cyntaf ar gyfer Cymru eu cyd-ddatblygu gyda chyrff cyhoeddus a'u gosod yn ffurfiol gerbron y Senedd ar 14 Rhagfyr 2021, gyda datganiad llafar cysylltiedig gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar yr un diwrnod.

**ARGYMHELLIAD 7**

Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf. Dylid gweithredu canfyddiadau'r adolygiad hwnnw mewn digon o amser i unrhyw gyrff cyhoeddus sydd newydd eu hychwanegu dderbyn eu dyraniadau cyllid a'u llythyrau cylch gwaith cysylltiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23. Dylai'r adolygiad:

- ystyried yr effaith y byddai cynnwys/hepgor unrhyw gorff cyhoeddus penodol yn ei chael ar weithredu'r Ddeddf ar lefel genedlaethol;
- cydnabod y bydd cynnwys unrhyw gyrff cyhoeddus ychwanegol yn arwain at ofynion adrodd, monitro ac archwilio ychwanegol ac y bydd hyn yn anochel yn arwain at oblygiadau ariannol/adnoddau;
- nodi'n glir ddisgwyliadau cyrff cyhoeddus nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Ddeddf yn ffurfiol mewn perthynas â datblygu cynaliadwy, a sut y bydd y disgwyliadau hynny'n cael eu monitro a'u gorfodi; a
- nodi'n glir y meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau o ran cynnwys/eithrio a'r broses neu'r amserlenni ar gyfer cychwyn adolygiadau yn y dyfodol.

**Diweddariad cynnydd Llywodraeth Cymru**

Ar 7 Mawrth 2022, atebais lythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn gofyn am ragor o wybodaeth am yr adolygiad o'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf. Rhoddodd yr ymateb hwn yr wybodaeth ddiweddaraf am y dull gweithredu a'r profion rydym yn eu defnyddio i ystyried pa gyrff ychwanegol fyddai'n ddarostyngedig i ddyletswydd llesiant y Ddeddf. Yn seiliedig ar asesiad cychwynnol o'r pedwar maen prawf a nodir ym Memorandwm Esboniadol Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a benderfynodd pa gyrff cyhoeddus oedd yn ddarostyngedig i'r Ddeddf yn wreiddiol, amcangyfrifwn fod llai na deg corff cyhoeddus ychwanegol yn debygol o gael eu hychwanegu at Adran 6 o'r Ddeddf.

Cyn bo hir, byddwn yn cyhoeddi dogfen ymgynghori yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar ein dull o ymestyn y ddyletswydd llesiant (Rhan 2) i gyrff cyhoeddus ychwanegol.

---

**ARGYMHELLIAD 8**

Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau gyda chynlluniau i lunio llythyrau cylch gwaith mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ar ôl ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai'r llythyrau cylch gwaith newydd gael eu defnyddio erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2022-23 fan bellaf.

**Diweddariad cynnydd Llywodraeth Cymru**:

Mae'r templed ar gyfer llythyrau cylch gwaith Tymor y Llywodraeth yn cynnwys gofyniad i fodloni'n llawn y ddyletswydd llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'n ofynnol i lythyrau Cylch Gwaith Tymor Newydd y Llywodraeth fod ar waith yn dilyn etholiad Senedd Cymru 2021 ym mis Mai 2021, pan fyddant yn ddyledus.

Cyfrifoldeb Timau Partneriaeth y cyrff hyd braich (ALB) fydd asesu i ba raddau y mae'r Cyrff yn cyflawni'r gofynion hynny, yn seiliedig ar wybodaeth fonitro a ddarperir iddynt gan y Cyrff.

**ARGYMHELLIAD 9**

Ni chaiff Llywodraeth Cymru greu unrhyw bartneriaethau na strwythurau cydweithredol newydd i gyflawni unrhyw swyddogaethau oni bai ei bod wedi archwilio'n llawn:

- a allai strwythurau partneriaeth presennol, yn hytrach, gyflawni'r swyddogaethau hynny;
- a allai'r strwythur newydd ddisodli'r rhai presennol;
- a all y swyddogaethau gael eu cyflawni gan gyrff cyhoeddus sy'n bodoli eisoes; ac
- ar ôl ymgynghori â chyrff cyhoeddus y mae'r newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt, a all y cyrff cyhoeddus hynny ddangos cefnogaeth i'r strwythurau newydd.

**ARGYMHELLIAD 10**

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiadau nesaf y Senedd sy'n nodi:

- sut y mae gwaith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, ochr yn ochr â strwythurau partneriaeth mawr eraill, yn rhyngweithio â'i gilydd o fewn fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gydag enghreifftiau o arfer da;
- pa hyblygrwydd sydd gan bartneriaethau i wneud penderfyniadau i drefnu eu hunain yn well ac yn fwy effeithlon;
- lle gall partneriaethau a sefydliadau weithredu i symleiddio neu gydgrynhoi'r strwythurau llywodraethu ac adrodd i leihau ailadrodd a dyblygu; a
- barn Llywodraeth Cymru ar dirwedd strwythurau partneriaeth dros y cyfnod adrodd nesaf (2020-25), gan gynnwys unrhyw gynigion i ddiddymu neu gydgrynhoi'r strwythurau hynny.

**Diweddariad cynnydd Llywodraeth Cymru (Argymhellion 9 a 10)**:

Fel y nodwyd yn yr ymateb (Hydref 2021), roedd yr *Adolygiad o Bartneriaethau Strategol* yn cynnwys argymhellion clir ar gamau ymarferol i symleiddio tirwedd y bartneriaeth. Bydd cyflawni yn erbyn argymhellion yr adolygiad hefyd yn cyflawni'r nodau yn argymhellion 9 a 10.

Bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn nodi bod ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithredu i adolygu trefniadau partneriaethau rhanbarthol yn barhaus, sy'n gorgyffwrdd ag argymhellion y Pwyllgor.

Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn trefnu trafodaethau gyda Chadeiryddion partneriaethau strategol i adolygu camau gweithredu, cyfleoedd a rhwystrau i fanteisio ar hyblygrwydd i symleiddio trefniadau partneriaeth. Yr egwyddor sylfaenol o hyd yw y dylai newidiadau i drefniadau partneriaeth gael eu harwain yn lleol, wedi'u llywio gan yr hyn sy'n gweithio orau ac yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol a pherthnasoedd presennol.